# Mewnwelediad a Deallusrwydd Ebrill 2026

Yn ystod mis Ebrill 2026, ymwelodd tîm Ymgysylltu y Bwrdd Iechyd â **11** o leoliadau ledled Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen gan siarad â chyfanswm o **360** o bobl (**255** Benyw a **105** Gwryw). Cafodd y tîm gyfle i ryngweithio â thrigolion mewn lleoliadau amrywiol, gan gynnwys lleoliadau a grwpiau cymunedol, sgyrsiau gwybodaeth, a Ffeiriau Iechyd a Lles Coleg Gwent.

## Beth wnaethon ni ei glywed y mis hwn?

- Dywedodd pobl wrthym bod dryswch o ran sut i gael mynediad at y gofal cywir. Mae diffyg gwybodaeth am pryd i fynd i MIU a phryd i fynd i Adran Argyfwng, yn enwedig ymysg y boblogaeth hŷn. Mae llawer yn dal i gredu mai Ysbyty Athrofaol y Faenor yw'r unig opsiwn, ac ychydig o ymwybyddiaeth sydd o opsiynau eraill.
- Roedd profiadau pobl o'r Cynllun Anhwylderau Cyffredin yn bositif, a dywedodd unigolion eu bod wedi llwyddo i gael gafael ar y feddyginiaeth briodol yn gyflym drwy eu fferyllfa, heb orfod trefnu apwyntiad gyda'r Meddyg Teulu.
- Lleisiodd cleifion bryder ynglŷn ag oedi cyn derbyn llythyrau apwyntiad. Roedd y problemau'n peri'r pryder mwyaf i aelodau o'r gymuned pobl fyddar, sydd yn aml yn methu â dibynnu ar sgyrsiau ffôn i wneud ymholiadau.
- Roedd gan bobl ifanc yng Nghampws Coleg Gwent ymwybyddiaeth dda o bwysigrwydd sgrinio serfigol, ond ychydig iawn o ddealltwriaeth o ddiben y brechlyn HPV.
- Roedd sawl gŵr ifanc yng Nghampws Coleg Gwent wedi dychryn wrth glywed y gall gwrywod ddatblygu canser y fron, a clywyd sylwadau megis "Rwyf wir wedi synnu y gall dynion gael canser y fron, doeddwn i ddim yn gwybod hyn!" gan ddangos bod angen parhau i godi ymwybyddiaeth.
- Roedd negeseuon diogelwch yn yr haul yn effeithiol, ac roedd pobl ifanc yn dweud eu bod yn diogelu eu hunain trwy ddefnyddio eli haul, mynd i'r cysgod neu wisgo hetiau. Dangoswyd ymwybyddiaeth dda ganddynt, hefyd, o'r risgiau sy'n gysylltiedig â chanser y croen.
- Cafwyd adroddiadau am ofal ardderchog yng Nghanolfan y Fron Ysbyty Ystrad Fawr ac yn Ysbyty Brenhinol Gwent, Ysbyty Athrofaol y Faenor ac Ysbyty Gwynllyw.



## Beth nesaf?

Dros y misoedd nesaf, bydd y tîm yn parhau i rannu gwybodaeth am:

- Sut y gall trigolion Gwent gael mynediad at Wasanaethau Sgrinio Canser a **Chymorth Iechyd Menywod ar gyfer gwasanaethau iechyd mislif, atal cenhedlu a menopos**
- Bydd ffocws ar ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl yn parhau drwy hyrwyddo Melo ac 111 Opsiwn 2

Mae'r holl adborth a dderbynnir yn cael ei gofnodi a'i adolygu i nodi themâu a thueddiadau allweddol. Rydym yn rhannu'r hyn rydyn ni wedi'i glywed gyda'r timau sy'n gyfrifol am y gwasanaethau hynny a chyda uwch arweinwyr. Mae'r mewnwelediadau yn helpu i siapio gwelliannau i wasanaethau, penderfyniadau cynllunio a pholisïau. Rydym hefyd yn anelu at gau'r ddolen trwy rannu diweddariadau gyda chymunedau fel y gall pobl weld sut mae eu hadborth wedi helpu i ddylanwadu ar newid. I gael rhagor o wybodaeth am ymgysylltu â'r gymuned, ewch i'n gwefan: **https://bipab.gig.cymru/amdanom-ni/ymgysylltu/ymgysylltu-cymunedol/**